# Strategaeth Hygyrchedd

# Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

# 2019-22

Medi 2019

## **Rhagair**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwerthfawrogi pob disgybl yn gydradd â'i gilydd, ac mae'n ceisio sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer diwallu'r anghenion amrywiol sydd gan ei blant a'i bobl ifainc i gyd.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, fel sydd wedi'u nodi yn ei bolisi addysg a'i bolisi corfforaethol.

Bydd y strategaeth hygyrchedd yma, ynghyd â'r canllawiau dilynol, yn helpu'r ysgolion a'r Cyngor i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol ac i wella arferion cynhwysol.

## Cynnwys


**ADRAN 1: Y Strategaeth a'r Cyd-destun** 4

Cyflwyniad 4
Amcanion y strategaeth 5
Cyd-destun Rhondda Cynon Taf 5
Cyfleoedd Cyfartal 6
Diffiniadau ac egwyddorion 6
Anghenion Addysgol Arbennig 7
Cynhwysiant 8
Deddf Hawliau Dynol 10

**ADRAN 2: Dyletswyddau ysgolion a'r Cyngor** 11

Rôl yr Awdurdod Lleol /Rôl yr Ysgol 11
Galluogi Mynediad i'r Cwricwlwm 12
Gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau oddi ar y safle a gweithgareddau allgyrsiol 13
Galluogi Mynediad i'r Amgylchedd Ffisegol 14
Galluogi Mynediad at Wybodaeth 15
Trefniadau Monitro, Adolygu a Gwerthuso 16

**Atodiadau**

Mae Atodiad 1 yn cysylltu i wefan briodol 17

Atodiadau 2 Pecyn Archwilio Hygyrchedd ar gyfer ysgolion a lleoliadau cyn-ysgol - Rhondda Cynon Taf 18

## ADRAN 1: Y Strategaeth a'r Cyd-destun

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwerthfawrogi pob disgybl yn gydradd â'i gilydd, ac mae'n ceisio sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer diwallu'r anghenion amrywiol sydd gan ei blant a'i bobl ifainc i gyd.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae rhaid i Gyngor Rhondda Cynon Taf gyfeirio at Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus y mae'r ddeddfwriaeth yma'n ei gosod ar gyrff cyhoeddus.

Yn ôl Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae angen i bob awdurdod cyhoeddus roi sylw i'r angen i:

- Dileu gwahaniaethu ac ymddygiadau eraill sydd wedi'u gwahardd gan y Ddeddf;
- Hybu cyfle cyfartal;
- Meithrin perthynas dda.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwella'r amddiffyniad yn erbyn gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu a oedd yn cael ei weithredu dan ddeddfwriaeth flaenorol gan sicrhau bod nodweddion gwarchodedig yn cael eu hamddiffyn yn yr un modd ag eraill.

Mae Atodlen 10 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol / y cyrff sy'n gyfrifol am ysgolion/lleoliadau addysgol i gynllunio ar gyfer cynyddu hygyrchedd eu hysgolion.

Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol ac ysgolion/lleoliadau addysgol i baratoi Strategaethau Hygyrchedd a Chynlluniau Hygyrchedd, yn y drefn honno.

Bydd strategaeth a chynllun Rhondda Cynon Taf yn canolbwyntio ar:

- Galluogi mynediad i'r cwricwlwm
- Galluogi mynediad i leoliadau
- Galluogi mynediad at wybodaeth
- Trefniadau Monitro, Adolygu a Gwerthuso

## Gweledigaeth

Gan weithio gyda rhieni, cynhalwyr (gofalwyr) ac ysgolion, mae gan Rondda Cynon Taf obeithion mawr ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc 0-25 oed sy'n mynychu ysgol neu leoliad addysg a'r gymuned ysgol ehangach.

Er mwyn cefnogi pobl ifainc i wireddu'r deilliannau dysgu gorau, mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio'i orau glas i gael gwared ar unrhyw beth sy'n rhwystro person ifanc rhag cael addysg a chyflawni ei lawn botensial.

Bydd y Cyngor, mewn partneriaeth ag ysgolion, yn gweithredu'r strategaeth yma i sicrhau bod plant a phobl ifainc gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a/neu anabledd corfforol a'r gymuned ysgol ehangach yn mwynhau profiad ysgol cynhwysol.

Mae'r strategaeth yma ar gyfer y cyfnod Ebrill 2019-2022.

## Amcanion y Strategaeth

Mae'r Strategaeth Hygyrchedd yn amlinellu nod y Cyngor i barhau i wella cyfleoedd ynghylch hygyrchedd ar gyfer disgyblion ac oedolion anabl ym mhob un o'i ysgolion, gan gynnwys unedau atgyfeirio disgyblion a meithrinfeydd. Bydd y Cyngor yn gwneud hyn trwy:

- Galluogi mynediad i'r cwricwlwm
- Galluogi mynediad i leoliadau
- Galluogi mynediad at wybodaeth
- Trefniadau monitro, adolygu a gwerthuso manwl

## Cyd-destun Rhondda Cynon Taf

Wrth ymdrechu i sicrhau bod pob person ifanc yn Rhondda Cynon Taf yn cyrraedd ei botensial academaidd llawn, mae Rhondda Cynon Taf yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i ysgolion fodloni Anghenion Dysgu Ychwanegol/anableddau pobl ifanc. Mae'r gefnogaeth ac arweiniad yma ar gael gan y Gwasanaeth Cymorth Dysgu a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg.

Yn ogystal â gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol i ysgolion, mae Rhondda Cynon Taf wedi datblygu ystod o ddarpariaeth arbenigol. Strategaeth y Cyngor yw cefnogi mwyafrif y bobl ifainc yn eu hysgolion prif ffrwd lleol; fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod bod angen darpariaeth fwy arbenigol ar rai pobl ifainc ac felly mae datblygu ac adolygu ystod o ddarpariaeth arbenigol allweddol yn gyson yn rhan allweddol o'n strategaeth. Mae hyn yn cynnwys ysgolion prif ffrwd â Dosbarthiadau Cymorth Dysgu ar gyfer:

- Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig
- Anawsterau Dysgu Cymhleth
- Nam ar y clyw
- Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol
- Asesu ac Ymyriad y Blynyddoedd Cynnar

yn ogystal ag Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion arbennig.

Mae blaenoriaethau allweddol ar gyfer Cynllun Busnes Strategol y Gyfadran Addysg ar gyfer 2019-2022 yn myndlaw yn llaw â gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn gweld ysgolion fel cymunedau bywiog sy'n diwallu'r anghenion sydd gan ddisgyblion unigol, ac yn bodloni eu dyheadau. Bydd yr ysgolion yn gwneud hyn drwy ddysgu ac addysgu o ansawdd uchel, llywodraethu cadarn ac arweinyddiaeth effeithiol.

## Cyfleoedd Cyfartal

- Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i hyrwyddo a datblygu cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ei waith, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cynnwys darpariaethau'r ddeddf flaenorol, sef Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.
- Mae'r egwyddorion cyfle cyfartal yn berthnasol i bopeth mae'r Cyngor yn ei wneud – gan gynnwys materion recriwtio a phenodi, a materion darparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor, felly, yn hyrwyddo'r arferion gorau ac mae ganddo bolisïau penodol sy'n berthnasol i'r holl wasanaethau. Amcan y Cyngor yw sicrhau cydraddoldeb i bawb, heb ystyried oedran, anabledd, tarddiad ethnig, rhyw, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.
- Bydd cyfle cyfartal, gan gynnwys mynediad a chynhwysiant i bawb, yn parhau i ategu gwaith y Cyngor o ran datblygu polisi a darparu gwasanaethau. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r gymuned leol er mwyn ymateb yn gadarnhaol i'w gofynion penodol. Mae'r strategaeth yma'n adlewyrchu ac yn cefnogi canllawiau hygyrchedd y Cyngor (diwygiad 2012) a'i bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth (diwygiad 2011).

## Diffiniadau ac Egwyddorion

## Anabledd

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae person anabl yn rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a thymor hir ar ei allu i gyflawni tasgau arferol o ddydd i ddydd. Gall nam corfforol neu nam meddyliol gynnwys nam ar y synhwyrau (megis nam sy'n effeithio ar y golwg a'r clyw), anawsterau dysgu a chyflyrau meddygol sydd ag effaith sylweddol a thymor hir ar fywyd y disgybl o ddydd i ddydd.

## Anghenion Addysgol Arbennig

- Mae'r Ddeddf yn nodi manylion am faterion a allai fod yn berthnasol wrth benderfynu a yw unigolyn yn bodloni'r diffiniad o berson anabl. **Mae tymor hir** yn golygu para o leiaf 12 mis, neu'n debygol o bara 12 mis.

- **Gwahaniaethu:** Rhaid i gyrff cyhoeddus beidio â rhoi disgyblion anabl dan anfantais oherwydd eu hanabledd, neu rywbeth sy'n deillio o'u hanabledd. Yn y strategaeth hygyrchedd yma, mae'r dehongliad o "wahaniaethu" mewn perthynas ag anabledd yn adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010.
  Erbyn hyn, does dim modd cyfiawnhau *gwahaniaethu uniongyrchol* dan unrhyw amgylchiadau (dan y Ddeddf flaenorol, sef Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, roedd modd i'r ysgolion gyfiawnhau rhai mathau o wahaniaethu uniongyrchol – os oedd yn ffordd gymesur o gyrraedd nod dilys).

  Mae'r strategaeth hygyrchedd yma hefyd yn ceisio diogelu disgyblion rhag *gwahaniaethu anuniongyrchol* – mae rhaid i'r ysgolion beidio â gwneud rhywbeth sy'n berthnasol i bob disgybl ond sy'n fwy tebygol o gael effaith andwyol ar ddisgyblion anabl yn unig.

Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ei chymeradwyo yn Ionawr 2018 a bydd yn cael ei chyflwyno o ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd yn mis Medi 2020.

Bydd yna rhai newidiadau sylweddol. Bydd y term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' (ADY) yn cymryd lle 'Anghenion Addysgol Arbennig' (AAA). Mae hyn yn golygu y bydd Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (SENCOs) yn cael eu galw'n Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCOs). Byddwn ni'n cael gwared ar Ddatganiadau a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy dros gyfnod o dair blynedd a bydd pob plentyn sydd ag Angen Dysgu Ychwanegol cydnabyddedig yn derbyn dogfen statudol newydd o'r enw Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd Cynlluniau Datblygu Unigol yn berthnasol nes bydd y person ifanc yn troi'n 25 oed os yw'n parhau i fyd addysg bellach.

**Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos ag ysgolion a llywodraethwyr i gytuno ar addasiadau rhesymol a fydd yn caniatáu i ddisgyblion anabl fanteisio'n llawn ar weithgareddau a chyfleusterau'r ysgolion.**

- **Addasiadau rhesymol:** Yn ôl Dyletswydd Cydraddoldeb 2011, mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn berthnasol i bobl anabl yn unig. Mae crynodeb o'r ddyletswydd yma i'w gweld isod ar gyfer ysgolion, ac mae'r strategaeth hygyrchedd yma'n cydnabod ac yn hyrwyddo'r egwyddorion hyn:

- Pan fydd ysgolion yn gwneud rhywbeth sy'n rhoi disgyblion anabl o dan anfantais, o'u cymharu â disgyblion eraill, bydd rhaid i'r ysgolion gymryd camau rhesymol i geisio osgoi'r anfantais honno.

- Dydy dyletswyddau eraill o ran addasiadau rhesymol ddim yn berthnasol i ysgolion o ran gwneud newidiadau i nodweddion ffisegol oherwydd mae'r rhain eisoes yn cael eu hystyried yn rhan o'u dyletswyddau cynllunio.

- Yn ogystal â'r ddyletswydd i ystyried addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion anabl unigol penodol, bydd rhaid i ysgolion hefyd ystyried addasiadau posibl sydd eu hangen ar gyfer disgyblion anabl yn gyffredinol oherwydd mae'n debygol bydd gan unrhyw ysgol ddisgybl anabl ar ryw adeg. Mae'n bwysig nodi bod y ddyletswydd ar ysgolion i wneud addasiadau rhesymol yn rhagflaenol. Ddylai ysgolion ddim aros tan fydd disgyblion anabl yn cyrraedd cyn gwneud addasiadau neu gynllunio ar gyfer gwneud addasiadau. Mae'n bosibl byddai hynny'n rhy hwyr, a gallai arwain at roi disgyblion dan anfantais sylweddol, felly, mae'n bwysig bod ysgolion yn cynllunio amrywiaeth eang o welliannau hygyrchedd dros gyfnod o amser.

- Serch hynny, does dim rhaid i ysgolion ddisgwyl pob math o anableddau ac anghenion posibl – mae angen iddyn nhw ystyried addasiadau rhesymol cyffredinol, er enghraifft, bod yn barod i baratoi papurau â ffont mawr ar gyfer disgyblion â nam ar eu golwg, er does dim disgyblion â nam ar eu golwg yn cael eu derbyn i'r ysgol honno ar hyn o bryd. Bydd rhoi ystyriaeth ehangach a strategol o'r fath i sut mae'r ysgolion yn cynllunio ar gyfer disgyblion anabl hefyd yn cysylltu'n agos â'u dyletswyddau cynllunio.

Bydd disgwyl i ysgolion ystyried rhesymoldeb yr addasiadau yn seiliedig ar amgylchiadau pob achos.

- Mae modd i gost chwarae rhan fawr wrth benderfynu ar yr hyn sy'n rhesymol.

- Yn aml, byddai'r hyn sy'n “addasiad” rhesymol yn fater o farn a, lle bo'n bosibl, dylai'r penderfyniad gael ei wneud drwy gytundeb rhwng y Cyngor, yr ysgol a'r rhieni/cynhalwyr, er enghraifft, dylai hawl disgyblion i fynychu'r ysgol o'u dewis gael ei gydbwyso yn erbyn cyfrifoldeb y Cyngor i ddefnyddio ei adnoddau yn y modd mwyaf effeithlon.

## Cynhwysiant

1. Ddylai ddim cael ei ystyried yn awtomatig bod anghenion addysgol arbennig gan blant a phobl ifainc anabl. Yn ôl Deddf Addysg 1996, mae gan blant

anghenion addysgol arbennig os oes ganddyn nhw anhawster dysgu sy'n galw am ddarparu addysg arbennig ar eu cyfer. Mae gan blant a phobl ifainc anawsterau dysgu:

- Os ydyn nhw'n cael anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy na'r anhawster y gaiff y rhan fwyaf o blant neu bobl ifainc o'r un oedran;

- Os oes ganddyn nhw anabledd sy'n eu hatal nhw neu'n eu rhwystro nhw rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o'r math a ddarperir fel arfer i blant a phobl ifainc o'r un oedran mewn ysgolion yn ardal y fwrdeistref sirol; ac

- Os ydyn nhw o dan oed ysgol gorfodol a'u bod nhw'n dod o fewn y diffiniadau uchod, neu y bydden nhw'n gwneud hynny pe na wneid darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer nhw.

2. Mae Cod Ymarfer AAA Cymru (2002) yn darparu cyfarwyddyd i ysgolion, lleoliadau sy'n cael eu cynnal, lleoliadau y blynyddoedd cynnar a chynghorau ynghylch cyflawni'u dyletswyddau statudol i nodi, asesu a chreu darpariaeth ar gyfer **anghenion addysgol arbennig y plant.** Rhan hanfodol o weithredu'r Cod yma yw'r egwyddorion craidd y dylai Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) dysgwyr gael eu bodloni mewn ysgol neu leoliad addysg prif ffrwd a dylai dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) gael mynediad i gwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol.
   Un o'r egwyddorion allweddol sy'n tanategu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cod ADY (Drafft o'r Cod ADY 2018 ar adeg ysgrifennu) yw cefnogi dysgwyr i fanteisio ar system addysg gynhwysol lle caiff plant a phobl ifainc eu cefnogi i gymryd rhan mewn addysg brif ffrwd.

Wrth gyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol, mae angen i athrawon roi sylw dyledus i'r egwyddorion canlynol o ran cynhwysiant:

- Gosod heriau dysgu addas;

- Ymateb i'r anghenion dysgu amrywiol sydd gan ddisgyblion;

- Goresgyn rhwystrau posibl i ddysgu ac asesu ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Ers 1996, mae gan ysgolion a Chynghorau gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, wedi'i chynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac, ers mis Medi 2002, mae wedi bod yn anghyfreithlon i ysgolion a Chynghorau wahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl yn eu trefniadau ar gyfer derbyn a gwahardd ac ar gyfer darparu addysg a gwasanaethau cysylltiedig.

## Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae'r strategaeth yma'n ceisio sicrhau diogelu hawliau disgyblion anabl ymhellach, yn unol â darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998.

- Mae erthygl 2 o'r protocol cyntaf yn rhoi hawl i *bob* plentyn beidio â chael ei rwystro rhag cael addysg addas ac effeithiol. Yn ogystal, mae rhaid i'r Cyngor barchu hawliau rhieni i sicrhau bod addysg o'r fath yn cydymffurfio â'u hargyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol eu hunain, ar yr amod dydy hynny ddim yn golygu gwariant cyhoeddus afresymol.

- Mae erthygl 14 yn rhoi hawl i bob plentyn beidio â chael ei rwystro rhag cael addysg o ganlyniad i wahaniaethu.

## ADRAN 2: Dyletswyddau Ysgolion a'r Cyngor

Mae rhaid i bob uned cyfeirio disgyblion ac ysgol a gynhelir baratoi ei chynllun hygyrchedd ei hun.

Rhaid i'r cynllun hygyrchedd nodi:

- Sut bydd ysgolion yn cynyddu ansawdd ac i ba raddau y mae modd i ddisgyblion ag anableddau gymryd rhan yn y cwricwlwm, gan gynnwys gweithgareddau ar ôl yr ysgol a thu hwnt. (Erthygl 23 a 29 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)
- Pa welliannau ffisegol bydd yr ysgol yn eu gwneud i sicrhau bod gan ddisgyblion ag anableddau'r mynediad gorau posibl i addysg. (Erthygl 6 a 28 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)
- Sut bydd ysgolion yn gwella darpariaeth gwybodaeth hygyrch i ddisgyblion ag anableddau. (Erthygl 2,4 ac 13 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)
- Sut mae plant a phobl ifainc yn rhan o wneud penderfyniadau (Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)

Dylai'r cynllun yma gael ei gymeradwyo a'i addasu gan y corff llywodraethu neu'r pwyllgor rheoli yn achos unedau cyfeirio disgyblion.

Dylai ysgolion asio eu cynlluniau hygyrchedd â'u cynlluniau eraill, er enghraifft, Cynllun Rheoli Asedau, Cynllun Datblygu'r Ysgol a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Dros amser, dylai'r cynllun ddod yn rhan o'r dull cyffredinol o ran blaengynllunio. Yn hytrach na bod yn strategaeth annibynnol, bydd hi'n debycach i edefyn yn rhedeg trwy holl gynlluniau a pholisïau'r ysgolion, gan gynnwys cynlluniau sy'n ymwneud â gwaith cyfalaf a rheoli eiddo, cludo dysgwyr, y cwricwlwm, yr ysgol, gwasanaethau cymorth technoleg gwybodaeth, hyfforddi staff a gwasanaethau cysylltiedig eraill.

Mae gan ysgolion a gynhelir ddyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am eu cynlluniau hygyrchedd yn adroddiad y llywodraethwyr i rieni.

Mae angen i ysgolion adolygu'r cynllun hygyrchedd yn barhaus, a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Mae hefyd angen gwerthuso i benderfynu a yw'r amcanion yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen. Mae modd defnyddio nifer o welliannau i fesur llwyddiant cynllun hygyrchedd effeithiol. Mae modd i ysgolion fabwysiadu rhai o'r mesurau canlynol:

- Disgyblion anabl a'u rhieni/cynhalwyr/cymuned ysgol

ehangach yn fwy bodlon â'r ddarpariaeth ar eu cyfer, a'u cyfranogiad ym mywyd yr ysgol;

- Tystiolaeth o gynyddu cyfranogiad disgyblion anabl ym mywyd llawn yr ysgol (er enghraifft, cymryd rhan mewn clybiau ar ôl oriau'r ysgol, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol a theithiau ysgol);

- Newidiadau gweladwy o ran hyder y staff wrth addysgu a chefnogi disgyblion anabl ag amrywiaeth o anghenion;

- Cynnal archwiliadau ym mhrif feysydd y cwricwlwm;

- Cynlluniau graddol ar gyfer gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol;

- Gwybodaeth ar gael i ddisgyblion/rhieni/cynhalwyr/y gymuned ysgol ehangach mewn amrywiaeth o fformatau;

- I ba raddau mae'r ysgol yn bodloni gofynion y staff, y rhieni a'r ymwelwyr.

Mae Cyfadran Addysg y Cyngor yn gweithio'n agos ag Isadran Eiddo'r Cyngor i nodi anawsterau posibl o ran hygyrchedd, a chynghori a chefnogi ysgolion a rhieni ynglŷn ag addasiadau rhesymol.

- Dylai eitemau bach a mân waith gael eu hariannu gan gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion, er enghraifft, arwyddion, paentio llinellau, ailaddurno priodol a mân newidiadau;

- Dylai gwaith ar raddfa fwy gael ei flaenoriaethu ynghyd â phrosiectau cyfalaf mawr eraill.

## Galluogi Mynediad i'r Cwricwlwm

**Bydd y Cyngor yn:**

Darparu mynediad i gymorth a chyngor i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn gwella dulliau cynhwysol a rhannu arfer da.

Darparu mynediad i gymorth a chyngor i ysgolion i'w galluogi i roi cynlluniau ar waith i gefnogi pobl ifainc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol/anableddau.

Hyrwyddo arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn ysgolion.

Cynnwys materion hygyrchedd wrth ddatblygu proffil yr ysgol.

Darparu cyngor, cymorth ac ymgynghoriad ynghylch yr ymateb graddedig trwy'r Garfan Cymorth Dysgu a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg.

Adolygu defnydd o Gyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi'i ddyrannu i ysgolion er mwyn darparu cymorth gwell i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu anableddau o ran mynediad i'r cwricwlwm.

Darparu cefnogaeth dechnolegol i alluogi mynediad i'r cwricwlwm lle mae'r gost yn fwy na £500.

O ran plant ag anghenion mynediad sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ac sy'n trosglwyddo i ysgol arall, bydd y swyddogion priodol o'r Cyngor yn dechrau cefnogi'r ysgol yn ystod Tymor y Gwanwyn er mwyn paratoi ar gyfer eu derbyn. Bydd dull tebyg yn cael ei fabwysiadu i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf.

Darparu darpariaeth arbenigol ar gyfer pobl ifainc sy'n methu diwallu eu hangenion cymhleth mewn darpariaeth brif ffrwd.

**Bydd ysgolion yn:**

Darparu cwricwlwm eang cytbwys i'r holl ddisgyblion, gan sicrhau ei fod yn cael ei wahaniaethu'n briodol i sicrhau bod modd i'r holl bobl ifainc ag ADY a/neu anableddau gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu yn llawn ac mewn modd effeithiol ar y cyd â'u cyd-disgyblion.

Nodi pobl ifainc sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu ac ymateb i ofynion dysgwyr unigol o ran mynediad i'r cwricwlwm er mwyn cael gwared ar y rhwystrau hyn trwy gynllunio'n addas.

Cwblhau ac adolygu map darpariaeth ar gyfer yr holl bobl ifainc ag ADY, sy'n cynnwys amrywiaeth o strategaethau, ymyraethau a dulliau sy'n addas i amrywiaeth o ddulliau dysgu i sicrhau eu bod nhw'n ymateb i ystod amrywiol o anghenion unigol o fewn cymuned yr ysgol ac adolygu hyn yn gyson.

Sicrhau bod staff yn effro i anghenion pobl ifainc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol/anabledd trwy broffil un dudalen.

Darparu cefnogaeth dechnolegol i alluogi mynediad i'r cwricwlwm lle mae'r gost yn llai na £500.

Ystyried anghenion disgyblion unigol cyn eu derbyn ac, yn ôl yr angen, gynllunio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i ddiwallu'r anghenion hyn.

## Gweithgareddau Diwylliannol, Gweithgareddau Oddi Ar y Safle a Gweithgareddau Allgyrsiol

Mae mynediad i'r cwricwlwm yn cynnwys dysgu ac addysgu ac, hefyd, gwricwlwm ehangach yr ysgol, megis gweithgareddau ar ôl oriau'r ysgol, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol, neu deithiau ysgol. Mae hawl gan bob disgybl i gymryd rhan mewn gweithgareddau oddi ar y safle ac mae disgwyl i'r ysgolion

gymryd camau rhesymol i wneud hyn yn bosibl. Dylai'r ysgolion ystyried y gweithgareddau hyn yng ngoleuni unrhyw ddisgybl ag anableddau sylweddol yn y dyfodol.

Mae modd i'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ddarparu cyngor a chymorth ar gyfer ysgolion sydd â phryderon am anableddau'r disgyblion yn effeithio ar eu gallu i gymryd rhan.

- Mae rhaid sicrhau bod ymweliadau diwylliannol, gweithgareddau oddi ar y safle a gweithgareddau allgyrsiol yn hygyrch i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion anabl.

- Bydd gan bob ysgol bolisi cyfredol o ran ymweliadau ysgol a gweithgareddau oddi ar y safle sy'n osgoi arferion gwahaniaethol.

- Dylai asesiad risg gael ei gynnal ar gyfer pob gweithgaredd oddi ar y safle i ddangos bod cyfleoedd i gynnwys pob disgybl yn y gweithgaredd wedi'u hystyried.

- O ran ymweliadau ysgol mae modd codi tâl amdanyn nhw yn ôl y gyfraith, mae rhaid i'r ysgolion godi tâl rhesymol ym mhob achos ar gyfer mynd â disgyblion anabl ar ymweliad ysgol. Mae rhaid i gostiau cychwynnol y daith adlewyrchu anghenion yr holl ddisgyblion.

- Mae rhaid i'r staff sicrhau bod lefel priodol o ofal a goruchwyliaeth ar gael i ddiwallu anghenion pob unigolyn yn y grŵp.

## Galluogi Mynediad i'r Amgylchedd Ffisegol

**Bydd yr Awdurdod Lleol yn**:

Darparu pecyn hunan-archwilio i ysgolion ei ddefnyddio.

Adolygu archwiliadau hygyrchedd wedi'u cyflawni gan ysgolion yn barhaol a darparu cymorth, her a chyngor addas ble mae angen.

Cefnogi ysgolion trwy ddarparu mynediad i gyngor ar yr ymateb graddedig i anghenion.

Cyfeirio ysgolion at yr hyfforddiant priodol i'w galluogi i ymarfer yn gynhwysol. Asesu pa mor addas yw adeiladau'r ysgol yn rhan o gynllunio buddsoddiad cyfalaf strategol a Chynllunio Busnes y Gyfadran Addysg.

Ystyried gwelliannau sy'n gwneud adeilad yn fwy hygyrch wrth ymgymryd â gwaith adnewyddu sy'n cael ei wneud drwy Raglen Gyfalaf a Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif.

Darparu cyngor ac ymgynghoriad uniongyrchol i ysgolion am gynllunio ar gyfer gwelliannau i hygyrchedd yr adeilad.

Archwilio cyfleusterau lles i sicrhau bod toiledau, ystafelloedd newid ac ystafelloedd hylendid hygyrch ar gael i'w defnyddio at ddibenion cefnogi disgyblion, staff ac ymwelwyr.

**Bydd yr ysgolion yn**:

Cynnal y-Pecyn Cymorth Archwilio Hygyrchedd.

Sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud fel bod modd i bobl ifainc ag ADY/anableddau gael mynediad i'r cwricwlwm a'r safle ysgol ehangach - er enghraifft, dylai ysgolion geisio aildrefnu ystafelloedd dosbarth ac amserlenni ble bo modd os nad yw rhai ystafelloedd dosbarth yn hygyrch i ddisgyblion unigol. Bydd angen diwallu gofynion gweledol a chlywedol yn unol â chyngor arbenigol.

Sicrhau bod cyfleusterau ar gyfer staff ddim yn rhoi gweithiwr anabl dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'r rhai sydd ddim yn anabl. Mae angen, felly, wneud addasiadau rhesymol yn y sefyllfaoedd hyn.

Wrth dderbyn disgyblion anabl, sicrhau bod yr holl waith cynllunio yn cael ei wneud ymhell ymlaen llaw. Dylai'r ysgolion ystyried yn ofalus anghenion y disgyblion unigol a'r gwaith sydd angen ei wneud, a chyfathrebu â'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant a'r Uned Trafnidiaeth Integredig ynglŷn â'r newidiadau sydd eu hangen.

Ceisio sicrhau bod y brif fynedfa, yr ardal gweinyddu, y neuadd a'r toiledau i ymwelwyr yn hygyrch i ymwelwyr anabl, er enghraifft, ar gyfer defnyddwyr allanol a nosweithiau rhieni er mwyn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth bresennol o ran cydraddoldeb i bobl anabl.

Adolygu eu gweithdrefnau gwacáu mewn argyfwng er mwyn ystyried anghenion disgyblion anabl neu ymwelwyr anabl. Mae cyngor ar weithdrefnau ar gael gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.

Sicrhau bod cyfarwyddyd ar yr ymatebion graddedig sy'n ymwneud ag addasiadau i'r amgylchedd ac adnoddau dysgu yn cael ei ddilyn.

Sicrhau bod hyfforddiant ar gael i lywodraethwyr a staff ysgol i godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau.

Mae modd cael rhagor o gyngor a gwybodaeth ynglŷn â gwaith adeiladu a ffynonellau ariannu gan Isadran Eiddo'r Cyngor.

## Galluogi mynediad at wybodaeth

**Bydd y Cyngor yn:**

Cadw at y canllawiau argraffu 'Gweld yn Glir' a sicrhau eu bod ar gael i bawb.

Rhoi cyngor i ysgolion ynghylch darparu gwybodaeth mewn gwahanol fformatau i bobl ifanc ag anghenion synhwyraidd.

Bydd tudalen y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant  ar wefan Rhondda Cynon Taf yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn fformat hygyrch. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn datblygu ystod o ddogfennau hawdd i'w darllen sy'n addas ac yn hygyrch i blant a phobl ifainc ac unigolion ag anawsterau dysgu.

**Bydd ysgolion yn:**

Gofyn am gefnogaeth a chyngor gan y Garfan Cymorth Dysgu ynghylch fformatau amgen i gwrdd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol dysgwyr synhwyraidd.

Defnyddio proffil un dudalen i sicrhau bod staff yn effro i anghenion y bobl ifainc er mwyn darparu gwybodaeth yn y fformat gywir.

Darpariaeth gwybodaeth adolygu ac archwilio yn yr ysgol i sicrhau ei bod ar gael i bawb.

## Trefniadau monitro, adolygu a gwerthuso

Bydd y broses o weithredu'r strategaeth a chynnydd yn erbyn y gweithredoedd cytûn a datblygiadau wedi'u cynllunio'n cael ei monitro yn rhan o gyfarfodydd cyson â'r Grŵp Strategaeth Hygyrchedd yng nghyd-destun cynllun Busnes Strategol y Gyfadran Addysg. Bydd y broses gwerthuso cynnydd yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu darpariaeth llwybrau dysgu gan ysgolion ar gyfer yr holl ddisgyblion.
- Effaith ymyraethau ar gynnydd disgyblion.
- Cynnal hyfforddiant i gynyddu ymwybyddiaeth o arferion cynhwysol.
- Archwilio gwariant ysgolion o ran cyllidebau ADY.
- Rhoi cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif ar waith - defnyddio archwiliad i lywio unrhyw benderfyniadau eraill o ran gwaith adeiladu yn y Rhaglen Gyfalaf.
- Archwilio cyfleusterau lles.
- Adolygu hunanarchwiliadau'r ysgol wedi'u cwblhau gan ddefnyddio pecyn cymorth hygyrchedd, wedi'i gymeradwyo gan y llywodraethwyr.
- Cofnodion o gyfarfodydd/ymgynghoriadau cynghorau ysgol.
- Monitro'r wefan - barn/sylwadau pobl ifainc.
- Adborth gan ymgynghorwyr her ynghylch cynlluniau/hunanasesiadau hygyrchedd.

## Atodiadau 1

'Gweld yn Glir'. Print Clir
http://inform/cy/supportservices/humanresources/policies/seeitrightclearprintguidelines.pdf

Deddf Cydraddoldeb 2010 - cyngor i ysgolion 2014
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/315587/Equality_Act_Advice_Final.pdf

Cynllunio ar gyfer cynyddu mynediad i ysgolion i ddisgyblion ag anableddau
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/cynllunio-ar-gyfer-cynyddu-mynediad-i-ysgolion-i-ddisgyblion-ag-anableddau.pdf

# Atodiadau 2

Pecyn Archwilio Hygyrchedd ar gyfer ysgolion a lleoliadau cyn-ysgol - Rhondda Cynon Taf (wedi'i atodi)

**Pecyn Archwilio Hygyrchedd ar gyfer ysgolion a lleoliadau cyn-ysgol**

| **Ysgol** | **Dyddiad cwblhau** |
|---|---|
| **Enw'r person wnaeth gwblhau'r archwiliad** | **Swydd** |

**1. A yw'ch lleoliad addysgol chi yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010?**

| | **Cwestiwn** | **Tic ✓** | **Tystiolaeth** | **Croes ✗** | **Camau i'w cymryd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Oes gennych chi Gynllun Hygyrchedd? | | | | |
| 2 | Gafodd eich cynllun hygyrchedd ei ddylunio ar y cyd gyda phlant neu bobl ifanc ag ADY, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill? | | | | |
| 3 | A yw pawb yn eich lleoliad yn ymwybodol o Ddeddf Cydraddoldeb 2010? | | | | |
| 4 | Oes gyda chi dystiolaeth bod eich lleoliad yn trin disgyblion/myfyrwyr yr un mor ffafriol â phawb arall, ac yn cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw disgyblion/myfyrwyr anabl dan anfantais i gymharu â'u cyfoedion? | | | | |
| 5 | Oes gyda chi dystiolaeth bod cymuned eich ysgol yn ymdrechu i weld y plentyn/person ifanc gydag ADY fel unigolyn yn hytrach nag fel rhywun ag anabledd? (e.e. hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd, cynlluniau addysg sy'n datblygu cryfderau plentyn/person ifanc yn ogystal â diwallu eu hanghenion) | | | | |
| 6 | Ydych chi wedi cyhoeddi eich adroddiad gwybodaeth ADY? | | | | |
| 7 | A yw'r Swyddog Lleol yn gysylltiedig gyda'ch adroddiad gwybodaeth ADY? | | | | |
| 8 | Ydy pob aelod o staff yn deall anghenion disgyblion/myfyrwyr ac yn eu cefnogi yn ôl yr angen? | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Oes gyda chi bolisïau, prosesau ac arferion cynhwysol ar gyfer yr ysgol gyfan? | | | | |
| 10 | A ydych chi'n gwneud ymdrech i gynnwys disgyblion/myfyrwyr gydag ADY a'u teuluoedd ymhob gweithgaredd gyfoethogi? | | | | |
| 11 | Ydych chi'n dathlu cryfderau disgyblion/myfyrwyr ag ADY ac yn canolbwyntio ar eu galluoedd yn hytrach na'r hyn maen nhw'n ei ganfod yn anodd? | | | | |
| 12 | A yw disgyblion/myfyrwyr yn rhan o broses recriwtio cynorthwywyr dysgu a staff arall o fewn yr ysgol? | | | | |

**2. A yw eich adeilad chi'n hygyrch i bawb?**

| | **Cwestiwn** | **Tic** ✓ | **Tystiolaeth?** | **Croes** ✗ | **Camau i'w cymryd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | A yw'ch adeiladau wedi cael eu haddasu mewn modd sy'n sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl ag anableddau? | | | | |
| 2 | Os nad yw'n bosibl gwneud addasiadau, ydych chi wedi dod o hyd i ffyrdd eraill i sicrhau hygyrchedd e.e. symud dosbarthiadau i ystafelloedd hygyrch? | | | | |
| 3 | Ydy'r llwybrau sydd o amgylch yr adeilad a'r trefniadau parcio yn ddiogel, yn hawdd eu cyrraedd ac yn meddu ar ddigon o arwyddion? | | | | |
| 4 | Ydy'r systemau argyfwng a gadael yr adeilad mewn argyfwng yn hygyrch i bawb e.e. oes gan y larymau rannau gweledol a chlywedol? | | | | |
| 5 | A yw toiledau a chyfleusterau newid wedi'u lleoli mewn mannau addas, gan gael eu cadw at eu dibenion cywir e.e. nid yn cael eu defnyddio i storio pethau? | | | | |
| 6 | Oes ardaloedd synhwyraidd isel a thawel ar gael yn y lleoliad? | | | | |
| 7 | A yw eich ystafelloedd (gan gynnwys yr ystafelloedd dosbarth) wedi'u trefnu'n addas ar gyfer disgyblion/myfyrwyr ag anabledd corfforol? | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | A yw'r ystafell ddosbarth wedi'u haddasu i sicrhau bod modd i ddisgyblion/myfyrwyr gydag anghenion synhwyraidd i ddefnyddio pob rhan o'r ystafell? Mae hyn yn cynnwys gosod llenni i leihau lefelau sŵn a chael gwared ar annibendod. | | | | |
| 9 | Ydy'r dodrefn a'r offer sydd wedi'u dewis wedi cael eu haddasu a'u lleoli yn y llefydd mwyaf addas? | | | | |
| 10 | Os oes angen, ac os yw'n bosib, oes yna raniadau yn eu lle mewn ystafelloedd agored i sicrhau mynediad i ddisgyblion/myfyrwyr ag anawsterau synhwyraidd? | | | | |
| 11 | Os ydy negeseuon intercom yn cael eu defnyddio, ydyn nhw'n cael eu hail-adrodd i ddisgyblion/myfyrwyr â nam ar eu clyw? | | | | |
| 12 | Ydy pob arwydd a symbol mewn Braille ar gyfer disgyblion gyda nam ar eu golwg, ac ar ffurf llun i rai gydag anawsterau dysgu a chyfathrebu? | | | | |
| 13 | Ydych chi'n defnyddio marciau gweladwy iawn i sicrhau diogelwch disgyblion/myfyrwyr â nam ar eu golwg? | | | | |
| 14 | Ydych chi'n ymgynghori â disgyblion/myfyrwyr ag ADY ynghylch hygyrchedd ystafelloedd dosbarth, toiledau a chyfleusterau newid ayyb? | | | | |

**3. A yw eich lleoliad yn hygyrch i bawb?**

| | **Cwestiwn** | **Tic ✓** | **Tystiolaeth?** | **Croes ✗** | **Camau i'w cymryd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydych chi'n defnyddio arwyddion hygyrch, yn yr adeilad ac yn ystod gweithgareddau ac achlysuron? | | | | |
| 2 | Ydy disgyblion/myfyrwyr ag ADY yn cael eu cynnwys mewn fforymau sy'n cynnwys disgyblion/myfyrwyr e.e. cynghorau ysgol? | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | A oes cefnogaeth bersonol a chreadigol wedi'i threfnu er mwyn i bob disgybl/myfyriwr allu cymryd rhan ymhob gweithgaredd, gan gynnwys tripiau/ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol ac yn ystod amser egwyl? | | | | |
| 4 | Ydych chi'n sicrhau nad yw anawsterau ariannol yn atal disgyblion/myfyrwyr gydag ADY rhag cael eu cynnwys mewn gweithgareddau ac achlysuron? | | | | |
| 5 | Ydych chi'n sicrhau bod symud o leoliad i leoliad wedi'i gynllunio'n ofalus ac wedi'i addasu ar gyfer anghenion unigol disgyblion/myfyrwyr ag ADY? | | | | |
| 6 | Ydych chi'n dod o hyd i ffyrdd hyblyg a chreadigol i sicrhau bod disgyblion/myfyrwyr ag ADY yn gallu symud yn hawdd rhwng eu dosbarthiadau? | | | | |
| 7 | Ydych chi'n trefnu achlysuron arbennig i grwpiau bychan neu unigolion i feithrin hunan-barch, hyder a sgiliau cymdeithasol? | | | | |
| 8 | Ydych chi'n gweithio'n agos gyda theuluoedd (a'r Gwasanaeth Lles Addysg os yw'n briodol) i wella presenoldeb? | | | | |
| 9 | Ydych chi'n cymryd camau rhagweithiol i oresgyn bwlio drwy weithredu polisïau a dulliau gwrth-fwlio? | | | | |
| 10 | Ydy disgyblion/myfyrwyr ag ADY a'u teuluoedd yn derbyn gwybodaeth am deithiau ysgol a gweithgareddau ymlaen llaw er mwyn iddyn nhw allu gwneud trefniadau addas? | | | | |

**4. Ydy'r cwricwlwm yn hygyrch?**

| | **Cwestiwn** | **Tic** ✓ | **Tystiolaeth** | **Croes** ✗ | **Camau i'w cymryd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Os gan staff ddyheadau a disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion/myfyrwyr ag ADY? | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Ydy staff eich ysgol yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ac wedi'i ddiweddaru am anghenion ychwanegol ac am sut mae modd diwallu'r anghenion hynny? | | | | |
| 3 | Ydy plant ag anableddau yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth, drama ac ymarfer corff? | | | | |
| 4 | Ydy athrawon dosbarth/staff Addysg Gorfforol yn gwybod sut i gynnwys disgyblion/myfyrwyr gydag anableddau mewn gwersi Addysg Gorfforol? | | | | |
| 5 | Ydy disgyblion/myfyrwyr a'u teuluoedd yn rhan o adolygu cynlluniau unigol am fynediad i'r cwricwlwm? | | | | |
| 6 | Ydych chi'n defnyddio ymateb graddedig wrth ddiwallu anghenion disgyblion/myfyrwyr ag ADY? | | | | |
| 7 | Ydych chi'n defnyddio'r cylch 'asesu, cynllunio, adolygu' i lywio'r ymateb graddedig? | | | | |
| 8 | A yw'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion/myfyrwyr ag ADY a'r rhai heb ADY wedi lleihau dros amser (gan hefyd sicrhau cyflawniad uchel pob disgybl)? | | | | |
| 9 | Ydy'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan ddisgyblion/myfyrwyr sy'n derbyn cymorth ADY neu sydd â chynllun EHC yr un mor dda â disgyblion/myfyrwyr eraill â chynlluniau ADY yn genedlaethol? | | | | |
| 10 | A ydych chi'n sicrhau bod gwaith cartref yn hygyrch i bawb e.e. drwy osod gwaith cartref yn gynnar yn y wers, drwy ei roi ar-lein (a rhoi copi caled i deuluoedd heb fynediad i'r we)? | | | | |
| 11 | A yw staff cyflenwi, gan gynnwys athrawon cyflenwi, yn gwybod am anghenion ychwanegol disgyblion/myfyrwyr ac yn gwybod sut i ddiwallu'r anghenion hynny? | | | | |
| 12 | Ydy staff yn cael amser i gynllunio ar gyfer disgyblion/myfyrwyr sydd angen | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cwricwlwm gwahanol neu bersonol? | | | | |
| 13 | Oes gan ddisgyblion/myfyrwyr ag ADY fynediad at dechnoleg gwybodaeth briodol? | | | | |
| 14 | Ydy pob oedolyn ychwanegol, gan gynnwys cynorthwywyr dysgu, yn meithrin perthynas gadarnhaol, gan gefnogi hyblygrwydd a hwyluso dysgu'n annibynnol? | | | | |
| 15 | Ydy cymhorthion ategol yn cael eu defnyddio i sicrhau bod disgyblion/myfyrwyr gydag ADY yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm? | | | | |

**5. Pa mor hygyrch yw'r wybodaeth, cyngor ac arweiniad?**

| | **Cwestiwn** | **Tic** ✓ | **Os 'ydy' - ble mae modd dod o hyd i'r wybodaeth?** | **Croes** ✗ | **Os 'nac ydy' - nodwch y camau i'w cymryd a lle maen nhw wedi'u cofnodi yn y Cynllun Hygyrchedd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydy eich Adroddiad Gwybodaeth ADY a Chynllun Hygyrchedd ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled (ar gyfer teuluoedd heb fynediad i'r we)? | | | | |
| 2 | Ydych chi'n tynnu sylw at Dudalen We'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ar gyfer gwybodaeth, cyngor ac arweiniad? www.rctcbc.gov.uk | | | | |
| 3 | Ydych chi'n gweithio gyda rhieni/cynhalwyr a phobl ifanc i sicrhau bod eich gwefan wedi'i gyflwyno mewn ffordd sy'n addas i bawb? | | | | |
| 4 | Ydych chi'n cynnal cyfarfodydd adolygu ayyb ar adegau lle bydd modd i rieni fynychu? | | | | |
| 5 | Ydych chi wedi datblygu sianeli cyfathrebu a phrosesau adolygu sy'n galluogi gwybodaeth i gael ei rhannu ddwy-ffordd gyda theuluoedd? | | | | |
| 6 | Ydy'r wybodaeth ar gael mewn ieithoedd gwahanol? | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Ydy'r wybodaeth ar gael mewn ffurffiau gwahanol, gan gynnwys<br>- 'hawdd i ddarllen'<br>- print mawr<br>- symbolau<br>- sain? | | | | |
| 8 | Ydy staff yn gyfarwydd gyda'r dechnoleg sy'n cael ei defnyddio i rannu gwybodaeth gyda phobl ag anableddau? | | | | |
| 9 | Ydych chi'n sicrhau bod disgyblion/myfyrwyr yn gwybod yn union pwy i gysylltu â nhw am wybodaeth, cyngor a chefnogaeth? | | | | |
| 10 | Ydych chi'n rhoi gwybodaeth i blant/phobl ifanc a'u teuluoedd am SNAP Cymru www.snapcymru.org? | | | | |